CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**CHRISTIAN BRANCH** B.Sc., P.G. Dip
Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro -
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Interim Head of Service -
Regulation & Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir/County Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7TW

ffôn / tel: (01248) 752820
Gofynnwch am / Please ask for Lowri Hughes
E-bost / Email ehealth@ynysmon.gov.uk
Ein Cyf / Our Ref: 033.37 LEH/MRJ
Eich Cyf / Your Ref:

I/TO:

Clerc Y Cyngor/Clerk to the Council

02.03.2021

Annwyl Syr / Fadam,

**<u>Yng: Deddfwriaeth Ddi-Fwg</u>**

O 1 Mawrth 2021, mae'r gyfraith ddi-fwg bresennol yn cael ei hymestyn i gynnwys mwy o leoedd a lleoliadau yng Nghymru. Bydd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 a Rheoliadau Adeiladau a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i diroedd ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus, yn ogystal â lleoliadau gwarchod plant a lleoliadau gofal dydd awyr agored fod yn ddi-fwg.

Rydym yn gwybod bod gostwng nifer y bobl ifanc sy'n ysmygu yn arbed bywydau. Felly bydd gwahardd ysmygu mewn ardaloedd y mae plant a phobl ifanc yn mynd iddynt yn rheolaidd, fel meysydd chwarae cyhoeddus, yn dad-normaleiddio ymddygiad ysmygu ac yn lleihau'r siawns y bydd plant a phobl ifanc yn dechrau ysmygu.

Bydd ei gwneud yn ofynnol i fwy o leoedd cyhoeddus fod yn ddi-fwg yn lleihau'r posibilrwydd hefyd o ddod i gysylltiad â mwg ail-law niweidiol ac yn cynorthwyo i leihau sbardun y gwyddys ei fod yn peri i gyn-ysmygwyr ailddechrau.

Mae'r llythyr hwn yn nodi'r camau y cynghorir y rheini sydd â chyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth i'w cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth.

Dear Sir/Madam,

**<u>Re: Smoke-Free Legislation</u>**

From 1 March 2021, the existing smoke-free law is being extended to include more places and setting in Wales. The Public Health (Wales) Act 2017 and the Smoke-free Premises and Vehicles (Wales) Regulations 2020 will require that hospital grounds, school ground and public playgrounds, as well as outdoor day care and child-minding settings to be smoke-free.

We know that reducing the number of young people taking up smoking saves lives. Therefore banning smoking in areas where children and young people go regularly, like public playgrounds, will de-normalise smoking behaviour and reduce the chances of children and young people taking up smoking.

Requiring more public places to be smoke-free will also help reduce exposure to harmful second-hand smoke and will help reduce a known trigger for ex-smokers to re-start.

This letter sets out the action that those with responsibilities under the legislation are advised to take to ensure compliance with the legislation.

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.
You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both language
www.ynysmon.gov.uk/nodynpreifatrwyddgwarchodycyhoedd
www.anglesey.gov.uk/publicprotectionprivacynotice

Sicrhau Cydymffurfiaeth

Ar 1 Mawrth 2021, bydd yn ofynnol i bob maes chwarae cyhoeddus yng Nghymru fod yn ddi-fwg gydol yr amser hyd yn oed os nad oes plant yno. Mae'r ddeddfwriaeth:

- Yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheolwr neu'r person sy'n gyfrifol am y maes chwarae cyhoeddus gymryd camau rhesymol i atal ysmygu yno, a
- Yn ei gwneud yn drosedd ysmygu mewn meysydd chwarae cyhoeddus.

Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys meysydd chwarae cyhoeddus sy'n cael eu rheoli neu eu cynnal gan awdurdodau lleol neu Gynghorau Cymuned, ac sy'n cynnwys un neu ragor o wahanol fathau o gyfarpar chwarae megis siglen, pwll tywod, llithren, neu ramp. Bydd yn ofynnol iddynt fod yn ddi-fwg bob amser o fewn ffin y maes chwarae. Os nad oes ffin, yna bydd yr ardal ddi-fwg o fewn 5 metr i unrhyw gyfarpar maes chwarae.

Nid yw'r ddeddfwriaeth ond yn ymwneud ag ysmygu tybaco (h.y. sigaréts, pibellau, sigârs, sigaréts llysieuol a phibellau dŵr / pibellau hookah / shisha). Nid yw'n cynnwys e-sigaréts. Fodd bynnag, gall y rheini sy'n gyfrifol am leoliadau penodol gyflwyno gofynion gwirfoddol, nad ydynt yn ddeddfwriaethol, ynghylch defnyddio e-sigaréts os dymunant wneud hynny.

Arwyddion

Er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol bod ysmygu wedi'i wahardd mewn meysydd chwarae cyhoeddus rhaid dangos o leiaf un arwydd 'Dim Ysmygu' mewn lle amlwg yn y brif fynedfa i'r maes chwarae cyhoeddus, neu'n agos ati, ac os oes mwy nag un brif fynedfa, rhaid arddangos arwyddion yn yr holl fynedfeydd hyn neu'n agos atynt. Ar gyfer meysydd chwarae cyhoeddus heb ffin, rhaid gosod arwydd mewn man amlwg ger y maes chwarae.

Rhaid i'r arwydd gynnwys:

- Darlun graffig clir o sigarét yn llosgi o fewn cylch gyda bar ar draws y cylch sy'n croesi symbol y sigarét**, a**
- Ar gyfer meysydd chwarae o fewn ffiniau wedi'u marcio'n glir, y testun " Mae ysmygu yn y maes chwarae hwn yn erbyn y

Ensuring Compliance

From 1 March 2021, all public playgrounds in Wales will be required to be smoke-free at all times, even if there are no children present. The legislation:

- Requires the manager or person responsible for the public playground to take reasonable steps to prevent smoking in there, and
- Makes it an offence to smoke in public playgrounds.

The legislation covers public playgrounds that are managed or maintained by local authorities or Community Councils, and contain one or more pieces of playground equipment such as a swing, sandpit, slide, or a ramp. They must be smoke-free at all times within the playground boundary. If there is no boundary, the smoke-free area is within 5 metres of any item of play equipment.

The legislation only covers smoking tobacco (i.e. cigarettes, pipes, cigars, herbal cigarettes and waterpipes/hookah/shisha pipes). It does not include e-cigarettes. However, those responsible for particular settings may introduce voluntary, non-legislative requirements on e-cigarette use if they wish.

Signs

In order to ensure that all parties are aware that smoking is prohibited in public playgrounds, at least one 'No Smoking' sign must be displayed in a prominent position at, or near, the main entrance to the public playground, and if there is more than one main entrance, signs must be displayed at, or near, all of these entrances. For public playgrounds without a boundary, a sign must be placed in a prominent position near the playground.

The sign must contain:

- A legible graphic representation of a burning cigarette enclosed in a circle with a bar across the circle which crosses the cigarette symbol, **and**
- For playgrounds within clearly marked boundaries, the text "It is against the law to smoke in this playground/ Mae ysmygu

gyfraith/It is against the law to smoke in this playground' **neu**
- Ar gyfer meysydd chwarae cyhoeddus nad ydynt o fewn ffiniau sydd wedi eu marcio'n glir, y testun 'Mae ysmygu o fewn 5 metr i'r cyfarpar chwarae hwn yn erbyn y gyfraith/It is against the law to smoke within 5 metres of this play equipment'.

Nid oes unrhyw ofynion penodol o ran maint, dyluniad na lliw'r arwydd, fodd bynnag, mae templed ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru - https://llyw.cymru/ysmygu

Dyletswydd i atal ysmygu a gorfodi hynny

Rhaid i'r sawl sy'n rheoli neu sy'n ymwneud â rheoli'r maes chwarae cyhoeddus gymryd camau rhesymol i atal person sy'n ysmygu yno rhag gwneud hynny. Mae troseddau mewn perthynas ag ysmygu mewn meysydd chwarae cyhoeddus ac am fethu â chymryd camau rhesymol i atal unigolyn rhag ysmygu:
- Ysmygu mewn meysydd chwarae cyhoeddus - Hysbysiad Cosb Penodedig o £100, sy'n gostwng i £75 os telir yn gynnar.
- Methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd i atal ysmygu mewn meysydd chwarae cyhoeddus - euogfarn ddiannod, dirwy heb fod yn uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol, sef £2,500 ar hyn o bryd.

Bydd swyddogion awdurdodedig ym mhob awdurdod lleol yn gorfodi'r ddeddfwriaeth newydd. Mae profiad blaenorol o ddeddfwriaeth ddi-fwg yn awgrymu bod disgwyl lefelau uchel o gydymffurfio heb fod angen adnoddau sylweddol i fonitro neu orfodi cydymffurfiaeth. Yn yr un modd â deddfwriaeth flaenorol, y dull gorfodi yw cynghori, egluro a gorfodi, lle mai camau gorfodi ffurfiol yw'r dewis olaf. Rhaid i orfodaeth hefyd fod yn gyson, yn dryloyw ac yn gymesur.

**Yr hyn y cynghorir y dylech ei wneud, ar y lleiaf, i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth yw:**
- **Arddangos arwyddion 'Dim Ysmygu', fel y nodir uchod.**
- **Deall y ddyletswydd i atal ysmygu a chymryd camau rhesymol i atal ysmygu yn yr ardal ddi-fwg.**

yn y maes chwarae hwn yn erbyn y gyfraith", **or**
- For playgrounds not within clearly marked boundaries, the text "It is against the law to smoke within 5 metres of this play equipment/ Mae ysmygu o fewn 5 metr i'r cyfarpar chwarae hwn yn erbyn y gyfraith".

There are no specific requirements on the size, design or colour of the sign, however, a template is available on the Welsh Government website – https://gov.wales/smoking

Duty to prevent smoking and enforcement

The person who controls or is concerned with the management of the public playground must take reasonable steps to stop a person who is smoking there from smoking. There are offences in relation to smoking in public playgrounds and for failing to take reasonable steps to stop a person smoking:
- Smoking in public playgrounds - Fixed Penalty Notice of £100, discounted to £75 for early payment.
- Failing to comply with the duty to prevent smoking in public playgrounds - Summary conviction, fine not exceeding level 4 on the standard scale, currently £2,500.

Authorised officers within each local authority will enforce the new legislation. Previous experience of smoke-free legislation suggests high levels of compliance are to be expected without the need for significant resource being required to monitor or enforce compliance. As with previous legislation the enforcement approach required is to advise, explain and enforce, where formal enforcement action is the last resort. Enforcement must also be consistent, transparent and proportionate.

**The minimum action that you are advised to take to ensure compliance with the legislation:**
- **Display 'No Smoking' signs, as specified above.**
- **Understand the duty to prevent smoking and take reasonable steps to prevent smoking in the smoke-free area.**

Dylid ystyried a oes unrhyw gamau rhesymol eraill y gellir eu cymryd efallai, megis cael gwared ar finiau sbwriel gyda blychau llwch, e-byst i gontractwyr, arddangos posteri ar hysbysfyrddau, a monitro o bryd i'w gilydd. Dylid cymryd camau hefyd i sicrhau bod yr arwyddion gorfodol yn aros yn eu lle ac nad ydynt wedi cael eu cuddio na'u fandaleiddio

**Argymhellir bod tystiolaeth o'r holl gamau a gymerwyd, gan gynnwys camau rhagarweiniol a gorfodaeth barhaus, yn cael ei chofnodi a'i chadw.** Bydd hyn yn darparu trywydd tystiolaeth os bydd gofyn i'r person cyfrifol ddangos eu bod wedi cymryd camau rhesymol i atal ysmygu.

Gellir trafod cyngor a chymorth pellach mewn perthynas â dulliau atal ysmygu a sut i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyda swyddogion o'r adran Gwarchod y Cyhoedd (ceir manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn). Gellir gweld dolenni i'r ddeddfwriaeth a chanllawiau pellach hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://llyw.cymru/ysmygu

Consideration should be given to whether there are any other reasonable actions that maybe taken, such as removal of litter bins with ashtrays, emails to contractors, displaying posters on notice boards, and carrying out periodic monitoring. Action should also be taken to ensure the mandatory signs remain in place and have not been obscured or vandalised.

**It is recommended that evidence of all action taken, both preliminary and as ongoing enforcement, is recorded and retained.** This will provide an evidence trail in the event that the responsible person is required to demonstrate that they have taken reasonable steps to prevent smoking.

Further advice and support on prevention approaches and how to comply with the legislation can be discussed with officers from the Public Protection department (contact details found at the top of this letter). Links to the legislation and further guidance can also be found on the Welsh Government website at: https://gov.wales/smoking.

Yr eiddoch yn gywir / Yours faithfully,

**Lowri E Hughes**
**Uwch Technegydd Iechyd yr Amgylchedd/*Senior Environmental Health Technician***
**Rheoleiddio a Datblygu Economaidd / *Regulation and Economic Development***

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.
You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both language
www.ynysmon.gov.uk/nodynpreifatrwyddgwarchodycyhoedd
www.anglesey.gov.uk/publicprotectionprivacynotice